

**ROYAL WELSH COLLEGE**  
OF MUSIC & DRAMA  
**COLEG BRENHINOL**  
CERDD A DRAMA CYMRU

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 - 2025

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

An English language version of this document is available.

Mae modd darparu'r ddogfen hon mewn fformatau gwahanol ar gais.

## CYNNWYS

RHAGAIR GAN YR ATHRO HELENA GAUNT .....	tud 3
RHAGYMADRODD .....	tud 4
Ynglŷn â CBCDC	
Gweledigaeth a Chenhadaeth	
Gwerthoedd Craidd	
Cynllun Strategol	
Alinio Cydraddoldeb gyda chyfrifoldebau Strategol eraill	
ARWEINYDDIAETH A LLYWODRAETHU CBCDC .....	tud 8
Bwrdd Cyfarwyddwyr	
Hyrwyddwyr Cydraddoldeb	
Pwyllgorau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	
Datblygiad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol	
DATGANIAD POLISI TEGWCH A CHYDRADDOLDEB .....	tud 9
Y DDEDDF CYDRADDOLDEB .....	tud 10
Nodweddion Gwarchoddedig	
Y Ddyletswydd Gyffredinol	
DYLETSWYDDAU PENODOL A CBCDC .....	tud 11
Amcanion Cydraddoldeb	
Ymgysylltu	
Asesu Effaith	
Gwybodaeth Cydraddoldeb	
Gwybodaeth Cyflogaeth	
Hyfforddiant Staff	
Adrodd yn Flynyddol	
Cyhoeddi a Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol	
EIN HAMCANION CYDRADDOLDEB STRATEGOL .....	tud 14
Diwylliant a Llywodraethu	
Cydweithio, Cyfathrebu ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd	
Amrywiaeth Corff y Myfyrwyr a Phrofiad y Myfyrwyr	
Denu, Cadw a Datblygu Staff	
Hygyrchedd	
Cynhwysiant Mewn Arfer Proffesiynol	
Cyflog Cyfartal	
Casglu Data a Monitro	
MANYLION CYSWLLT .....	tud 17
ATODIAD 1 – CYNLLUN GWEITHREDU CYDRADDOLDEB CBCDC .....	tud 18

## BYRFODDAU

DPC	Dangosyddion Perfformiad Critigol
PCA	Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
AEG	Asesiadau Effaith Ar Gydraddoldeb
CCAUC	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
LGBTQ*	Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Thrawsrywiol, Queer/Cwestiynu ac unrhyw hunaniaethau eraill o ran cyfeiriadedd rhywiol sy'n wahanol i heterorywiol
NG	Nodweddion Gwarchoddedig
CBCDC	Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru
CCS	Cynllun Cydraddoldeb Strategol
UM	Undeb y Myfyrwyr

## RHAGAIR GAN Y PRIFATHRO

“Addysg yw’r arf mwyaf pwerus y gallwch ei ddefnyddio i newid y byd” – geiriau doeth Nelson Mandela, a oedd yn deall pwysigrwydd newid yn well na’r rhan fwyaf ohonom.

Mae dysgu trwy’r celfyddydau perfformio wrth wraidd ein cenhadaeth. Fel gweithwyr proffesiynol creadigol, rydym yn gweithio i ddysgu am y byd a chysylltu ag ef yn ei holl ddargyfeirio oherwydd bod hyn wrth wraidd adrodd straeon gwych.

Mae’r Coleg yn lle i bawb, ac felly mae’n rhaid i’n cymuned barhau i gydweithio bob amser i gryfhau cynwysoldeb fel sbardun. Rydym am feithrin diwylliant sydd nid yn unig yn parchu gwahaniaethau ond sy’n mynd lawer ymhellach. Yr ydym am groesawu’r gwahaniaethau hynny mewn ffyrdd sy’n dod â phobl at ei gilydd ac yn sbarduno cyfleoedd creadigol newydd a rhagoriaeth artistig.

Gyda’n cysylltiadau cryf â’r diwydiant, rydym hefyd yn rhan o ecosystem greadigol a diwylliannol sy’n wynebu her wirioneddol wrth iddi geisio mynd i’r afael â materion cydraddoldeb – o rwystrau i gyfle i gwestiynau ynghylch pwy sy’n ‘berchen’ ar ddiwylliant. Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i gydweithio i ddylanwadu ar newid cadarnhaol ar draws y celfyddydau.

Mae hwn yn bwynt heriol yn y daith. Pan fydd materion yn sylfaenol, anaml y ceir atebion cyflym. Ond yn galonogol, rydym yn cael ein galw i roi sylw gwirioneddol i’n gwerthoedd a’r math o fyd rydym am ei adeiladu wrth symud ymlaen. I ni fel Coleg, mae’n golygu gwranddo ar bryderon a mynd i’r afael â hwy gyda chamau gweithredu go iawn.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cynnwys yr holl nodweddion gwarchoddedig ac yn rhychwantu ein syniadau strategol ar draws ein cynlluniau. Mae ei Gynllun Gweithredu hefyd yn cysylltu â set benodol arall o gamau rydym yn eu cymryd i ddileu hiliaeth. Mae llinellau amser ac atebolrwydd wedi’u nodi’n glir ar bob cam gweithredu a restrir a byddwn yn adrodd ar ein cynnydd ym mhob un.

Mae gwaith pwysig i’w wneud i gyflawni ein nodau. Yr ydym yn fendith o gael cymuned o bobl hael sydd am ein helpu i gael hyn yn iawn, ac yr ydym yn barod i roi o’ch amser i weithio arno gyda ni. Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch iddynt am eu gonestrwydd ac i’w hannog i aros gyda ni ar y daith hon o’n blaenau. Gyda’n gilydd, gallwn wneud y newid yr ydym i gyd am ei weld.

*Yr Athro Helena Gaunt*

**Prifathro**

# RHAGYMDRODD

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn rhoi fframwaith clir ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth a gwreiddio gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 yn y modd y mae'r Coleg yn gweithio. Gan adeiladu ar y gwaith a wnaed yn ystod oes y cynllun blaenorol, mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn nodi blaenoriaethau allweddol ar gyfer sicrhau gwell canlyniadau cydraddoldeb mewn modd wedi'i dargedu a chyson. Mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Awst 2020 a 31 Mawrth 2025.

## Ynglŷn â CBCDC

Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yw Conservatoire Cenedlaethol Cymru. Mae'n cyfrannu at hunaniaeth ddiwylliannol Caerdydd a Chymru ac yn denu rhai o'r myfyrwyr mwyaf dawnus o bob rhan o'r byd. Rydym yn darparu hyfforddiant ymarferol a seiliedig ar berfformio arbenigol ym meysydd cerddoriaeth a drama ac y cystadlu ochr yn ochr â grŵp cymheiriaid rhyngwladol o gonservatoires a cholegau celfyddydau arbenigol am y myfyrwyr gorau yn fyd-eang, gan alluogi myfyrwyr i fynd i mewn i fyd cerddoriaeth, y theatr a phroffesiynau cysylltiedig a dylanwadu arno.

### Llais Artistig

Mae'r Coleg yn addysgu rhai o'r myfyrwyr mwyaf dawnus o bob rhan o'r byd, gyda'r nod o roi iddynt nid yn unig y sgiliau technegol ac o ran y grefft sydd ei hangen arnynt i lwyddo ar lefelau uchaf y proffesiwn, ond hefyd i'w cynorthwyo i ddatblygu eu 'llais' artistig eu hunain.

### Amrywiaeth Creadigol

Mae calendr digwyddiadau'r Coleg yn cynnwys dros 300 o berfformiadau cyhoeddus bob blwyddyn yn amrywio o gyngherddau cerddorfaol, datganiadau, drama, opera a theatr gerddorol. Mae amrywiaeth creadigol y Coleg yn sicrhau amgylchedd llawn ysgogiad a phrofiad eang i fyfyrwyr pob disgyblaeth.

### Gwthio Ffiniau

Mae gan ein hathrawon ymroddedig gyfoeth o brofiad proffesiynol a phrofiad yn y diwydiant ac mae'r Coleg yn cydweithio â nifer o sefydliadau celfyddydol uchel eu proffil, gan gynnwys Opera Cenedlaethol Cymru, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, artistiaid a chyfarwyddwyr ar ymweliad, er mwyn sicrhau bod natur alwedigaethol unigryw ein rhaglenni hyfforddiant yn adlewyrchu arferion ac amodau presennol y byd proffesiynol.

Bydd y Coleg yn gwthio ffiniau'n gyson gyda rhaglenni astudio arloesol a chyffrous sydd wedi'u teilwra i ofynion diwydiannau celfyddydau a chreadigol cyfoes. Rydym yn canolbwyntio bob amser ar y dyfodol ac rydym yn hynod falch o ddoniau eithriadol ein myfyrwyr.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn amlinellu cyfres o Amcanion Cydraddoldeb Strategol ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Er bod yr Amcanion Strategol hyn yn cwmpasu'r Coleg yn gyfan, mae cynllun gweithredu manwl wedi'i gynhyrchu i roi manylion ynglŷn â sut, a phryd, y cynhelir pob gweithred benodol o dan bob amcan. Adolygir y cynllun gweithredu hwn yn flynyddol a chraffir arno drwy Adroddiadau Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Gellir gweld y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol yma:

*Atodiad 1 – Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol CBCDC*

## Ein Gweledigaeth a'n Cenhadaeth

Ein gweledigaeth yw ysbrydoli a newid bywydau, cysylltu a thrawsnewid cymunedau drwy'r celfyddydau.

Ein cenhadaeth yw cynnig addysg broffesiynol flaengar ac ymdrwythol ym meysydd cerddoriaeth a drama, sy'n grymuso'r cenedlaethau nesaf o ymarferwyr creadigol eithriadol, ac sy'n meithrin cymuned artistig gynhwysol a rhyngwladol.

Mae ein gwaith yn ysgogi ac yn hyrwyddo llif grymus rhwng

- perfformiadau eithriadol a chyfleoedd i bawb gyfranogi yn y celfyddydau
- crefft ddofn a threftadaeth o draddodiadau artistig a chreu gwaith newydd
- penodolrwydd diwylliannol ein gwlad a'r llwyfan byd-eang

....drwy bopeth a wnawn, a thrwy effaith ein graddedigion hynod fedrus ar y diwydiannau creadigol, rydym yn cynrychioli Cymru fel grym diwylliannol a chreadigol unigryw ledled y byd.

## Ein Gwerthoedd Craidd

<p><b>Arbenigol:</b> Arbenigedd dwfn mewn crefft Canolbwyntio ar y diwydiant, gweithio mewn partneriaeth, dysgu wrth weithio gyda disgwyliadau'r diwydiant Parod am gyflogaeth gydol oes</p> <p><b>Cyfoes:</b> Traddodiadau a repertoire sy'n bodoli yn bwydo gwaith newydd: parhau'n berthnasol Nawr a'r nesaf: edrych i'r dyfodol bob amser Chwilfrydig, ymholgar, cofleidio'r anhysbys; cymryd risg a lle i fethu yn rhan annatod o artistiaeth</p> <p><b>Dyfeisgar:</b> Datrysyr problem creadigol; chwilio am ganlyniadau sy'n fwy na'r elfennau unigol yn bersonol ac ar y cyd Ymarferol, wedi ymwreiddio, penderfynol a dygn: parod i weithio'n galed Diwylliant o gefnogaeth gref, her gref</p>	<p><b>Cynhwysol:</b> Lleol a byd-eang: Cymru mewn deialog gyda gwledydd ledled y byd Hyrwyddo llwybrau unigol amrywiol o fewn Cymuned CBCDC Diwylliant o barch o'r ddeutu</p> <p><b>Cydweithredol:</b> Cloddio am botensial creadigol ensemble Dod ag ystod gyfoethog o ddisgyblaethau i ddeialog a chyfenwid Cymuned o weithwyr proffesiynol (myfyrwyr fel gweithwyr proffesiynol ifanc; athrawon sy'n dysgu, dysgwyr sy'n addysgu)</p> <p><b>Cyfrifol:</b> Wedi ymgysylltu yn y darlun mwy; edrych allan; cysylltiedig yn fyd-eang; ymwybodol Ehangu gorwelion a phosibiliadau Agored am heriau mawr, a hunanfeirniadol</p>
---	---

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn amlinellu'r meysydd blaenoriaeth cydraddoldeb allweddol yn unol â gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd craidd y Coleg.

## Strategaeth CBCDC

Mae Gweledigaeth 10 mlynedd a Strategaeth 5 mlynedd (2020 i 2025) y Coleg yn amlinellu ein huchelgais, ac maent wedi'u seilio ar bump colofn:

1. Hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar y dyfodol ac a arweinir gan y diwydiant gyda phrofiad myfyrwyr eithriadol; wedi'i ddarparu gan staff o'r radd flaenaf mewn cymuned gynhwysol
2. Rhaglen gyhoeddus flaengar (perfformio, cyfrannu, dysgu), gan roi profiadau trawsnewidiol i gymunedau amrywiol ledled Cymru
3. Safle byd-eang fel conservatoire cenedlaethol Cymru, yn ysgogi cyfnewid rhwng diwylliannau amrywiol a grym creadigol gwlad fechan
4. Amgylchedd ymchwil ac arloesedd integredig yn hyrwyddo gwaith newydd ac yn arloesi ar gyfer y celfyddydau
5. Model cynaliadwy ar draws arferion refeniw a busnes, er mwyn darparu sefydliad sy'n ffynnu ac ail-lunio conservatoire sy'n batrwm i eraill.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn gorwedd o fewn pob un o'r pum colofn, gan gefnogi cyfeiriad strategol a gwreiddio ystyriaethau cydraddoldeb yn y nodau a thargedau allweddol. Yna mae'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol yn cysylltu'n uniongyrchol i'r meysydd blaenoriaeth cyffredinol a nodir yn y strategaeth.

Mae pob gweithred sydd wedi'i chynnwys yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb yn dangos cysylltiad clir i dargedau strategol drwy nodi'n benodol y targed strategol y mae'n perthyn iddo. Mae hyn yn dangos nad yw'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y Cynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb yn ddarnau o waith ar wahân, ond yn hytrach yn rhan o fusnes craidd ac maent yn cyfrannu tuag at DPC trosfwaol a chyfeiriad strategol y sefydliad.

### Alinio Cydraddoldeb gyda chyfrifoldebau Strategol eraill

Mae'r CCS hefyd yn cysylltu i'r Protocol Prevent, a ddatblygwyd mewn ymateb i'r Ddyletswydd Prevent. Mae dull y Coleg ar gyfer cydymffurfio â chanllawiau Dyletswydd Prevent y Llywodraeth wedi'i seilio ar egwyddorion hawl i lefaru, ymgysylltu, cynhwysiant a diogelu. Mae'n gyson â'n hymrwymiad cyffredinol i gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Coleg "roi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth" a deallir hyn fel lliniaru'r risg nid yn unig o eithafiaeth dreisgar ond hefyd mynegiant o "eithafiaeth nad yw'n dreisgar, a all greu awyrgylch sy'n hyrwyddo terfysgaeth ac yn poblogeiddio barn y mae terfysgwyr yn manteisio arni". Mae hyn yn adeiladu ar ein Datganiad Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Pholisiau Urddas yn y Gwaith/wrth Astudio drwy atgyfnerthu diogelu staff a myfyrwyr rhag ymddygiad a all arwain at greu amgylchedd gweithio neu astudio bygythiol neu elyniaethus.

Mae ein Cod Ymarfer Rhyddid i Lefaru yn cydnabod bod gallu pawb i gwestiynu safbwyntiau pobl eraill a chyflwyno syniadau radical a allai weithiau fod yn ddadleuol yn ganolog i'r cysyniad o gymuned academiaidd. Ar yr un pryd, mae'n cydnabod y dylai rhyddid i lefaru fod o fewn y gyfraith ac wrth gyfnewid barn bod yn rhaid i bawb drin pobl eraill ag urddas a pharch. Mae hyn yn berthnasol nid yn unig i'r rheini a allai fod yn feirniadol o grwpiau penodol ond hefyd i'r ffordd y mae aelodau grwpiau o'r fath yn ymateb i feirniadaeth.

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gynnal ar God Ymarfer Rhyddid i Lefaru, Protocol Prevent a Pholisi Siaradwyr/Digwyddiadau Allanol y Coleg.

Nid yw'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Cynllun Iaith Gymraeg y Coleg, a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 3) 2016 o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sy'n ymdrin â'r Gymraeg. Caiff materion yn ymwneud â'r Gymraeg eu hystyried ochr yn ochr â'r agenda cydraddoldeb yn rheolaidd, a'u trafod ar y cyd â'r nodweddion gwarchoddedig, yn enwedig wrth gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'r egwyddor o drin y Gymraeg yn gydradd yn parhau i gael ei datblygu a'i gweithredu ledled y Coleg ym mhob agwedd ar ddarpariaeth weinyddol ac academaidd

# ARWEINYDDIAETH A LLYWODRAETHU CBCDC

## Bwrdd Cyfarwyddwyr

Bwrdd Cyfarwyddwyr CBCDC sydd â'r cyfrifoldeb ffurfiol am sicrhau bod CBCDC yn bodloni gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb.

## Hyrwyddwyr Cydraddoldeb

Y Cyfarwyddwr Gweinyddu Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr sy'n gyfrifol am gyflawni'r CCS hwn a rheoli'r agenda cydraddoldeb ac amrywiaeth. Noddir pob gweithred a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb yn unigol gan aelod o'r Uwch Dîm Rheoli, sy'n gyfrifol am sicrhau ei bod yn cael ei chyflawni.

## Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Y Cyfarwyddwr Gweinyddu Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr sy'n cadeirio'r Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, a fydd yn cyfarfod bob tymor ac sydd â chynrychiolaeth o bob adran academaidd a chefnogaeth broffesiynol ac Undeb y Myfyrwyr. Mae'r Pwyllgor yn rhoi cyfeiriad strategol i'r agenda cydraddoldeb ac mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol dros gynllunio, datblygu ac adolygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Bydd pob aelod o'r Pwyllgor yn gweithredu fel Hyrwyddwyr Cydraddoldeb ac yn cyfathrebu hyn yn glir ar bob cyfle.

## Datblygiad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Er mwyn datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-2025, cynhaliwyd grwpiau ffocws y Grŵp Strategaeth Cydraddoldeb yn ystod misoedd Ionawr, Chwefror a Mawrth 2020. Fe'u trefnwyd yn wreiddiol gyda'r PCA a hyrwyddwyr mewnol eraill, ac yna trefnwyd sesiynau gyda grwpiau cymunedol. Trefnwyd a hwyluswyd yr holl gyfarfodydd grŵp ffocws gan Uzo Iwobi, Athro Cadair Ryngwladol y Coleg ar gyfer Amrywiaeth a Chydraddoldeb, a Jon Luxton, Cynghorydd Polisi i Lywodraeth Cymru.

Datblygodd yr PCA Gynllun Gweithredu mewn cyfarfodydd dilynol a gynhaliwyd ym mis Mai 2020, gan gytuno i gymryd perchnogaeth am gyflawni camau gweithredu diriaethol. Yna rhannwyd fersiynau drafft o'r ddogfen hon a'r Cynllun Gweithredu gyda holl staff a myfyrwyr y Coleg ym mis Mehefin 2020, gyda chyfle i ymateb neu awgrymu ychwanegiadau. Derbyniodd yr Uwch Dîm Rheoli y fersiynau terfynol ym mis Gorffennaf 2020 a chyhoeddwyd hwy ar wefan y Coleg ar 1 Awst 2020.

Rhannwyd y dogfennau hefyd gyda rhanddeiliaid allanol a oedd wedi mynegi diddordeb yng ngwaith ac uchelgais y Coleg yn y maes hwn. Gellir gweld rhestr lawn o'r rheini yr ymgynghorwyd â hwy ar dudalen 11.

Roedd yr adolygiad a Chyfeillio Beirniadol o'r ddogfen hon, a'r Cynllun Gweithredu sy'n cyd-fynd â hi, gan Race Council Cymru ac Uzo Iwobi yn hanfodol ac fe'i gwerthfawrogwyd yn fawr gan bawb.



# DATGANIAD POLISI TEGWCH A CHYDRADDOLDEB

Mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru wedi ymrwymo i brif-ffrydio cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei holl weithgareddau, yn ogystal â bodloni'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol a phenodol sydd arno drwy ddeddfwriaeth. Mae'r datganiad polisi hwn yn adeiladu ar weledigaeth a cholofnau strategol y Coleg.

Mae'r datganiad polisi hwn yn amlinellu ein hymrwymiad i'r gwaith o sicrhau y dylai pob ymgeisydd am swydd, ymgeisydd ar gyfer cwrs, myfyriwr, gweithiwr, ymwelydd neu gontractiwr gael ei drin yn deg ac mae'r diogelwch hwn yn cynnwys cysylltiad neu ganfyddiad ynghylch oedran, anabled, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae'r Coleg yn dymuno hyrwyddo a chynnal diwylliant lle mae cydymddiriedaeth a pharch o'r ddeutu yn sail ar gyfer perthynas waith wrth weithio neu astudio.

Mae hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ddyletswydd ac yn her i bawb, boed yn fyfyrwr, cyflogai, cyfarwyddwr neu unrhyw berson neu sefydliad sy'n darparu gwasanaethau i'r Coleg, neu mewn partneriaeth, â'r Coleg. Yn ymarferol, golyga hyn bod yn rhaid i bawb drin eraill yn deg a gydag urddas a pharch. Bydd y Coleg yn mynd i'r afael ag unrhyw achosion o wahaniaethu neu arfer amhriodol a bydd yn meithrin ymwybyddiaeth staff drwy raglen datblygu staff ac ymsefydlu myfyrwyr. Anogir yr holl staff a myfyrwyr i herio ac adrodd am unrhyw ddigwyddiadau o wahaniaethu. Mae pob agwedd ar fywyd myfyrwyr neu staff yn dod o dan y datganiad hwn.

## Ein hymrwymiad cyffredinol i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth

Bydd Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn gwneud y canlynol:

- Anelu i greu amgylchedd sy'n fan cynhwysol i weithio ac astudio lle nad yw nodweddion personol unigolyn yn creu rhwystr iddo ef neu hi mewn unrhyw agwedd ar ei waith neu astudiaeth;
- Sicrhau bod yr holl bolisiâu, gweithdrefnau a strategaethau yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gydraddoldeb;
- Disgwyl i'r holl staff, myfyrwyr ac ymwelwyr drin ei gilydd gydag urddas a pharch;
- Disgwyl i bwyllgorau a gweithgorau eraill roi sylw dyledus i amrywiaeth o fewn eu haelodaeth ac i ystyried effaith eu penderfyniadau ar y rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig;
- Disgwyl i'r holl staff a myfyrwyr fod yn ymwybodol o faterion cydraddoldeb a bod yn gyfrifol am eu gweithredoedd yn bersonol ac ar y cyd;
- Sicrhau bod ein holl ddarpariaethau dysgu ac addysgu yn hygyrch ac yn gynhwysol;
- Peidio â goddef ymddygiad sy'n arwain at greu amgylchedd gweithio neu astudio bygythiol neu elyniaethus.

# Y DDEDDF CYDRADDOLDEB

## Nodweddion Gwarchodedig

Mae CBCDC wedi ymrwymo'n llwyr i gydymffurfio â Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a bodloni gofynion y dyletswyddau cyffredinol a phenodol. Mae'r CCS hwn yn ymdrin â'r holl Nodweddion Gwarchodedig yn y Ddeddf Cydraddoldeb:

- Oedran (gan gynnwys pobl iau a phobl hŷn)
- Ailbennu rhywedd (pobl sydd wedi newid eu rhywedd neu sy'n dymuno gwneud hynny, does dim rhaid i hyn olygu proses feddygol)
- Anabledd (nam corfforol, meddyliol neu ar y synhwyrâu sy'n effeithio ar allu rhywun i wneud gweithgareddau pob dydd, gan gynnwys amrywiaeth eang o gyflyrau fel canser, HIV, diabetes ac iselder, a chyflyrau iechyd meddwl eraill)
- Priodas a phartneriaeth sifil (pobl sy'n briod neu mewn Partneriaeth Sifil)
- Beichiogrwydd a mamolaeth (mae mamolaeth yn cyfeirio at gyfnod o hyd at 26 wythnos ar ôl geni plentyn, neu pan fydd menyw yn dychwelyd o gyfnod mamolaeth mewn cyd-destun gwaith)
- Hil (lliwi, cenedligrwydd, tarddiad gwladol neu ethnig, gan gynnwys Sipsiwn a Theithwyr)
- Crefydd neu gred (crefydd, credoau crefyddol neu athronyddol, gan gynnwys diffyg crefydd neu gred fel Dyneiddwyr a phobl agnostig)
- Rhyw (gwryw / benyw)
- Cyfeiriadedd rhywiol (cyfeiriadedd rhywiol rhywun tuag at bobl o'r un rhyw, y rhyw arall neu'r ddau ryw)

Yn ogystal, bydd CBCDC yn cydnabod yr hawl i gysyniad mewnol rhywun o'i hun fel gwryw, benyw, cyfuniad o'r ddau, neu na'r naill na'r llall, sut mae unigolion yn ystyried eu hunain a'r hyn y maent yn ei alw eu hunain, gan gydnabod y gall hunaniaeth o ran rhyw fod yr un fath neu'n wahanol i ryw a neilltuir ar enedigaeth.

## Y Ddyletswydd Gyffredinol

Fel awdurdod cyhoeddus, mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Coleg i fodloni'r Ddyletswydd Gyffredinol (a nodir yn adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010) drwy sicrhau ei fod yn rhoi sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol:

- dileu unrhyw achosion anghyfreithlon o wahaniaethu, aflonyddu ac erlid ac unrhyw ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd gan y Ddeddf;
- hyrwyddo cyfle cyfartal i bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a rhai nad ydynt;
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a rhai nad ydynt.

Mae rhoi 'sylw dyledus' i'r tri nod hwn yn y ddyletswydd gyffredinol yn golygu bod yn rhaid i'r Coleg wneud y canlynol:

- dileu neu leihau anfantais i fyfyrwyr, staff ac ymwelwyr oherwydd eu nodweddion gwarchodedig;
- cymryd camau i ddiwallu anghenion staff, myfyrwyr ac ymwelwyr o grwpiau gwarchodedig pan fo'r anghenion hynny yn wahanol i anghenion pobl eraill;

- annog myfyrwyr, staff ac ymwelwyr o grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill y Coleg lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

## Y DYLETYSWYDDAU PENODOL A CBCDC

Yn ogystal â'r ddyletswydd gyffredinol, mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn amlinellu cyfres o 'ddyletswyddau penodol' y mae'n rhaid i CBCDC gydymffurfio â hwy. Mae'r dyletswyddau penodol, ac ymateb CBCDC iddynt, wedi eu nodi isod.

### Amcanion Cydraddoldeb

Datblygu a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol bob pedair blynedd.

Mae'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol wedi eu nodi yn adran nesaf y Cynllun hwn. Mae'r amcanion wedi eu datblygu yn seiliedig ar y canlynol:

- ymgynghori ac ymgysylltu â staff, myfyrwyr a mudiadau cydraddoldeb y sector gwirfoddol;
- data cydraddoldeb sefydliadol sy'n ymwneud â staff a myfyrwyr;
- gwybodaeth cydraddoldeb berthnasol y sefydliad;
- gwybodaeth gymharol gan ein grŵp cymheiriaid.

Mae'r amcanion yn cynrychioli wyth maes blaenoriaeth cyffredinol, pob un yn effeithio ar sawl nodwedd warchoddedig. Mae'r holl nodweddion gwarchoddedig yn dod o dan Amcanion Cydraddoldeb Strategol y Coleg, gyda'r cynlluniau gweithredu yn nodi pa nodweddion gwarchoddedig sy'n berthnasol i bob cam gweithredu.

### Ymgysylltu

Cynnwys ac ymgynghori â phobl sy'n cynrychioli un neu fwy o nodweddion gwarchoddedig wrth bennu amcanion cydraddoldeb a pharatoi ac adolygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Ymgysylltwyd â chynrychiolwyr rhanddeiliaid o wahanol grwpiau nodweddion gwarchoddedig wrth ddatblygu'r CCS. Mae rhestr lawn i'w chael yn Atodiad 2.

### Asesu Effaith

Asesu effaith debygol arferion neu bolisiâu sy'n cael eu cynnig neu eu hadolygu ar ein gallu i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol, monitro'r effaith a chyhoeddi'r asesiad pan fydd yn dangos effaith sylweddol.

Mae gan y Coleg ffurflenni a chanllawiau AEG ar waith ac mae'r broses yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r asesydd sicrhau y cynhelir ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid perthnasol. Mae hyn yn golygu ymgysylltu â staff, myfyrwyr, cynrychiolwyr Undebau a rhanddeiliaid allanol, pan fo hynny'n berthnasol. Cymerwyd camau i brif-ffrydio AEG i broses gwneud penderfyniadau'r Coleg, gyda gofyniad gorfodol i holl bapurau'r Coleg sydd angen penderfyniad gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr, Uwch Dîm Rheoli neu Bwyllgorau gynnwys AEG. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i wreiddio AEG mewn gwneud penderfyniadau, gyda hyfforddiant a chanllawiau diwygiedig i gael eu datblygu a'u darparu.

## Gwybodaeth Cydraddoldeb

Sicrhau bod Coleg yn nodi'n rheolaidd y wybodaeth berthnasol mae'n ei dal, ac yn nodi ac yn casglu gwybodaeth nad yw'n ei dal. Ystyried pa wybodaeth cydraddoldeb berthnasol a ddelir wrth benderfynu ar amcanion cydraddoldeb.

Bydd y Coleg yn cyhoeddi adroddiad manwl o'r data cydraddoldeb staff a myfyrwyr y mae'n ei gasglu, ac nad yw'n ei gasglu, bob blwyddyn drwy Adroddiadau Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac fe'i cyhoeddir ar ein gwefan.

Yn unol â'r ddyletswydd statudol, mae'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol wedi cael eu llywio gan wybodaeth cydraddoldeb berthnasol a ddelir gan y sefydliad ac ymchwil allanol. Ceir crynodeb o'r wybodaeth berthnasol a ddefnyddiwyd isod:

- Adroddiadau Gwybodaeth Cyflogaeth;
- Adroddiadau Data Cydraddoldeb Myfyrwyr;
- Data cydraddoldeb myfyrwyr ar gynrychiolaeth, dilyniant a chyflawniad;
- Adolygiadau Cyflog Cyfartal

Mae darnau o wybodaeth berthnasol a chanlyniadau ymgysylltu i'w gweld yn y cynlluniau gweithredu er mwyn dangos pam ein bod wedi dewis camau gweithredu penodol o dan bob un o'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol.

## Gwybodaeth Cyflogaeth

Casglu a chyhoeddi 'Gwybodaeth Cyflogaeth' erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn. Ystyried bod ag amcan cydraddoldeb i fynd i'r afael ag achosion unrhyw wahaniaethau cyflog yn ymwneud a nodweddion gwarchoddedig. Nodi, casglu a chyhoeddi gwybodaeth am wahaniaethau cyflog. Cyhoeddi cynllun gweithredu cyflog rhywiâu.

Bydd y Coleg yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi'r Wybodaeth Cyflogaeth sy'n ofynnol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn fel rhan o Adroddiadau Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Caiff y wybodaeth hon ei defnyddio er mwyn monitro cynnydd o ran cyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol perthnasol. Mae'r Cynllun Gweithredu yn gweithredu hefyd fel y Cynllun Gweithredu Cyflog Rhywiâu, fel sy'n ofynnol o dan y ddyletswydd statudol hon. Bydd yr Adolygiadau Cyflog Cyfartal yn berthnasol i bob nodwedd warchoddedig y caiff lefelau digonol o ddata staff eu dal ar eu cyfer, a byddant yn archwilio achosion unrhyw wahaniaethau cyflog a nodir. Bydd pob Adolygiad Cyflog Cyfartal yn arwain at gynhyrchu Cynllun Gweithredu Cyflog Cyfartal a gaiff ei weithredu a'i fonitro yn rheolaidd

## Hyfforddiant Staff

Hyrwddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ddyletswydd gyffredinol a'r dyletswyddau penodol ymhlith ein gweithwyr. Defnyddio gweithdrefnau asesu perfformiad er mwyn nodi a mynd i'r afael ag anghenion hyfforddiant gweithwyr o ran y dyletswyddau.

Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf Cydraddoldeb yn cael ei hyrwyddo i staff fel rhan orfodol o'r broses ymsefydlu ar gyfer staff newydd. Cynhelir sesiynau briffio blynyddol i staff llawn amser a chynhelir hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth i fyfyrwyr ar ddechrau pob blwyddyn academiaidd ar gyfer yr holl fyfyrwyr newydd fel rhan o'n rhaglen gofrestru.

## Hygyrchedd

Cymryd camau i sicrhau bod unrhyw ddogfen neu wybodaeth y mae gofyn i ni eu cyhoeddi yn cael eu gwneud mewn ffordd sy'n hygyrch i bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig.

Byddwn yn adeiladu ar y gwaith a wnaed yn ystod Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 er mwyn datblygu hygyrchedd ymhellach drwy'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd hwn. Mae'r camau a gymerir i fodloni'r flaenoriaeth hon wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu.

## Adrodd yn Flynyddol

Cynhyrchu a chyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn sy'n cydymffurfio â gofynion y ddyletswydd o ran adrodd yn flynyddol.

Yn unol â'r ddyletswydd statudol, caiff Adroddiadau Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol eu cynhyrchu'n flynyddol a'u cyhoeddi erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn. Cyhoeddir yr Adroddiad Blynyddol cyntaf ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn ar wefan y Coleg erbyn 31 Mawrth 2021; bydd hwn yn amlinellu'r cynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021.

## Cyhoeddi a Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Cyhoeddi trefniadau i fonitro cynnydd ar fodloni amcanion cydraddoldeb ac effeithiolrwydd y camau rydym yn eu cymryd i fodloni'r amcanion hynny.

Caiff y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol, y Cynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb, Gwybodaeth Cyflogaeth a gwybodaeth cydraddoldeb berthnasol eu cyhoeddi ar wefan y Coleg. Er y bydd y Coleg yn adrodd yn ffurfiol ar gynnydd o ran y Cynllun Cydraddoldeb Strategol bob blwyddyn, bydd monitro gweithrediad y cynllun gweithredu a chynnydd o ran cyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol yn broses barhaus, a fydd yn cael ei monitro:

- Yr Uwch Dîm Rheoli fydd yn atebol am weithredu'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol
- O dan gadeiryddiaeth aelod o'r Uwch Dîm Rheoli, cyfrifoldeb y Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth fydd cyflawni Cynllun Gweithredu'r CCS ac adrodd yn flynyddol yn erbyn y targedau. Bydd 'Cynnydd yn erbyn targedau a gytunwyd' yn eitem sefydlog ar bob agenda, gan sicrhau bod camau'n cael eu cymryd parthed y CCS gan bob cynrychiolydd PCA yn cael eu hadrodd bob tymor.

# EIN HAMCANION CYDRADDOLDEB STRATEGOL

Prif bwrpas ein gwaith o osod yr amcanion cydraddoldeb hyn yw ein bod yn sicrhau gwell canlyniadau i bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig. Wrth osod yr amcanion hyn, gwnaethom ystyried yr holl adborth o'r broses ymgynghori. Defnyddiwyd y dystiolaeth hon i benderfynu ar y materion cydraddoldeb pwysicaf, ac fe'i defnyddiwyd i siapiau'r blaenoriaethau a osodwyd drwy'r amcanion.

Nod yr amcanion hyn yw cael gwared ar rwystrau, hyrwyddo cyfle cyfartal, hyrwyddo cyd-berthnas dda a gwella perfformiad. Rydym yn cydnabod bod cyflawni'r amcanion hyn yn nod hirdymor a fydd yn gofyn am weithredu rhagweithiol a pharhaus er mwyn sicrhau newid.

Mae'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb (Atodiad 1) yn rhoi manylion y camau gweithredu penodol a roddir ar waith er mwyn cyflawni pob amcan. Mae hefyd yn amlgu sut y bydd cynnydd yn erbyn yr amcanion yn cael ei fesur a'i ddangos yn erbyn pob nodwedd warchoddedig a sut y mae'n cynorthwyo'r Coleg i gyflawni ei Weledigaeth 10 mlynedd a'i Gynllun Strategol 5 mlynedd.

1 | DIWYLLIANT A LLYWODRAETHU | Hyrwyddo urddas, parch, cynhwysiant a thegwch yng nghymuned y Coleg a gwreiddio cydraddoldeb yng ngwaith gwneud penderfyniadau y Coleg

Drwy nodi targedau penodol yn flynyddol yn ein Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol, byddwn yn:

- hyrwyddo diwylliant sy'n croesawu ac yn dathlu amrywiaeth a'r manteision a ddaw yn ei sgil i fywyd academaidd a llwyddiant y Coleg;
- sicrhau bod gan y Coleg ddiwylliant ac amgylchedd lle gall staff a myfyrwyr fod yn hwy eu hunain a, thrwy ymrwymiad, cyflawni eu gwir botensial;
- hyrwyddo tegwch, iaith gynhwysol, agweddau cadarnhaol a gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth;
- annog mwy o amrywiaeth cynrychiolaeth ar bob lefel, yn cynnwys y Bwrdd Cyfarwyddwyr ac Uwch Arweinwyr, gan sicrhau eu bod yn deall anghenion a safbwyntiau grwpiau gwarchoddedig;
- integreiddio cydraddoldeb yn rhagweithiol ym mhob maes o'n busnes, strategaethau a chynlluniau gweithredol;
- sicrhau y cynhelir Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar yr holl bolisiau ac arferion newydd a diwygiedig;
- bod yn rhagweithiol mewn herio a thynnu sylw at wahaniaethu;
- hyrwyddo ein systemau i ddelio â chwynion am aflonyddu neu wahaniaethu;
- adrodd ar y camau a gymerwyd yn agored a thryloyw;
- codi ymwybyddiaeth o'r cyfrifoldebau ar gyfer ein staff a myfyrwyr o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

2 | CYDWEITHIO, CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD | Sicrhau bod gwaith ymgysylltu yn digwydd gyda staff, myfyrwyr a grwpiau o bobl leol o'r sector gwirfoddol sydd â nodweddion gwarchoddedig, drwy gydweithio, cyfathrebu ac ymgynghori.

Drwy nodi targedau penodol yn flynyddol yn ein Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol, byddwn yn:

- sicrhau bod gwaith ymgynghori ac ymgysylltu â staff a myfyrwyr o grwpiau amrywiol yn digwydd wrth ddatblygu a monitro mentrau cydraddoldeb;
- darparu cyfleoedd i ymgynghori â staff a myfyrwyr a chasglu adborth ganddynt wrth ddatblygu ac adolygu ein polisiau a'n harferion;
- sicrhau ein bod yn ymateb yn rhagweithiol i'r adborth rydym yn ei gasglu gan staff a myfyrwyr;
- codi proffil ac amlygrwydd mentrau cydraddoldeb ac amrywiaeth ledled y Coleg;
- hyrwyddo a dathlu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein calendrau cymdeithasol a digwyddiadau;
- drwy ein deunyddiau a argreffir ac ar-lein, hyrwyddo cymuned o ehangu mynediad, cyfranogiad a chynhwysiant;
- cynnal neu hwyluso defnydd ein lleoliadau gan eraill;
- sicrhau bod datblygiad ein rhaglen gyhoeddus yn gynrychioliadol, gan gynnwys drwy ein rhaglen o artistiaid ar ymweliad a'n dewis o repertoire.

3 | AMRYWIAETH CORFF Y MYFYRWYR A PHROFIAD Y MYFYRWYR | Denu, dethol a chadw ystod amrywiol o fyfyrwyr i astudio yn y Coleg a chreu amgylchedd sy'n annog ac yn cefnogi pob myfyriwr i ymgysylltu â gwireddu ei lawn botensial

Drwy nodi targedau penodol yn flynyddol yn ein Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol, byddwn yn:

- sicrhau ein bod yn denu myfyrwyr amrywiol, gan gynnwys myfyrwyr o gefndiroedd anhraddodiadol ac o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli;
- cymryd rhan mewn prosiectau allanol penodol sy'n ceisio cynyddu amrywiaeth y rheini o gefndiroedd amrywiol yn y celfyddydau a byd addysg;
- gwreiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth yn natblygiad ac adolygiad ein portffolio academiaidd;
- adeiladu amrywiaeth a chydraddoldeb yng nghynrychiadau a pherfformiadau ein myfyrwyr;
- creu profiad o ansawdd uchel ar gyfer pob myfyriwr ac ymgysylltu â ac ymateb i fyfyrwyr o wahanol grwpiau gwarchoddedig;
- adrodd yn benodol ar yr effaith/newidiadau a wneir o ganlyniad i adborth gan fyfyrwyr;
- monitro cynnydd, cyflawniad a chyflogadwyedd myfyrwyr o grwpiau gwarchoddedig;
- adeiladu rhwydwaith o raddedigion a chyn-fyfyrwyr fel patrwm ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



#### 4 | DENU, CADW A DATBLYGU STAFF | Denu, cadw a datblygu ystod amrywiol o bobl i weithio i'r Coleg a galluogi iddynt gael mynediad at ddatblygiad a dilyniant gyrfa agored a thryloyw

Drwy nodi targedau penodol yn flynyddol yn ein Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol, byddwn yn:

- sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn greiddiol i'n Cynllun Pobl sy'n dod i'r amlwg;
- alinio holl bolisiau ac arferion staff newydd a diwygiedig gydag egwyddorion cydraddoldeb drwy sicrhau ei bod asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael ei gynnal ar bob un ohonynt;
- sicrhau bod cyfran staff o grwpiau gwarchoddedig ar yr holl raddau yn adlewyrchu prosesau recriwtio a dilyniant teg a thryloyw;
- sicrhau bod system werthuso staff yn arfarnu anghenion hyfforddiant a datblygiad;
- sicrhau bod yr adolygiad blynyddol yn cynnwys ystadegau recriwtio a chadw staff;
- darparu cefnogaeth ar gyfer gweithwyr o grwpiau gwarchoddedig;
- sicrhau bod rhaglen hyfforddiant cydraddoldeb blynyddol ar gael i'r holl staff;
- gwneud hyfforddiant cydraddoldeb yn orfodol ar gyfer staff llawn amser a pharhaol;
- darparu hyfforddiant ar gyfer staff sy'n gysylltiedig â recriwtio staff neu fyfyrwyr;
- darparu hyfforddiant gofal cwsmeriaid i'n staff lleoliadau a pherfformiadau;
- cynnig darpariaeth briodol o gyfleoedd datblygu ar gyfer staff ar bob lefel.

#### 5 | HYGyrCHEDD | Sicrhau bod adeiladau a seilwaith y Coleg yn adlewyrchu anghenion amrywiol ein cymunedau ac yn darparu amgylcheddau gweithio a dysgu hygyrch a chynhwysol.

Drwy nodi targedau penodol yn flynyddol yn ein Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol, byddwn yn:

- sicrhau bod yr adeiladau yn hygyrch i bawb;
- sicrhau bod cyfathrebu a gwybodaeth yn hygyrch i bawb;
- sicrhau bod ein cyrsiau, cyfranogiad, adnoddau dysgu ac addysgu, a datblygiad cwricwlwm yn hygyrch i bawb;
- datblygu ein hamrediad o berfformiadau hygyrch, yn cynnwys drwy ddefnydd technoleg;
- datblygu cynllun trafndiaeth sy'n ceisio cynghori ynglŷn â chyrchu ein lleoliadau;
- sicrhau bod hygyrchedd yn greiddiol i'n cynlluniau ystadau a datblygiad cyfalaf;
- sicrhau bod dadansoddiad o anghenion y rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig wedi'i gynnwys yn ein Harolwg Cynulleidfaoedd.

6 | CYNHWYSIANT MEWN ARFER PROFFESIYNOL | Datblygu dull cynhwysol ar gyfer ymchwil, lle caiff cynnwys pobl o grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig ei hyrwyddo ac y caiff rhwystrau i gyfranogiad pobl o grwpiau amrywiol eu dileu.

Drwy nodi targedau penodol yn flynyddol yn ein Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol, byddwn yn:

- hyrwyddo mwy o gyfranogiad mewn arfer proffesiynol gan y rheini o grwpiau gwarchoddedig;
- dathlu gweithgarwch ysgolheigaidd, dysgu ac addysgu ac ymarfer proffesiynol sy'n edrych yn benodol ar fynd i'r afael ag anghyfartaledd;
- dathlu a datblygu cyrhaeddiad ac effaith ein gwaith newydd arloesol, a'r hyn sy'n cael ei greu o fewn ein cymuned ein hunain;
- defnyddio egwyddorion cynhwysiant i ddatblygu polisi a datblygiad strategol academiaidd;
- mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau mewn gyfaeod ymchwil a chanlyniadau, gan dalu sylw penodol i anghydraddoldeb yn ymwneud â rhywedd;
- sicrhau bod y Pwyllgor Ymchwil yn cymeradwyo, monitro ac adrodd ar ystyriaethau moesegol gwaith academiaidd a gynhelir gan ein staff a'n myfyrwyr.

7 | CYFLOG CYFARTAL | Cynnal Adolygiadau Cyflog Cyfartal fel rhan o Grŵp Prifysgol De Cymru bob tair blynedd a rhoi'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Cynlluniau Gweithredu Cyflog Cyfartal ar waith.

Drwy nodi targedau penodol yn flynyddol yn ein Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol, byddwn yn:

- nodi, casglu a chyhoeddi gwybodaeth am wahaniaethau cyflog bob tair blynedd;
- ymgorffori'r gwaith dadansoddi ar gyflog sy'n ymwneud â'r holl nodweddion gwarchoddedig, pan fo digon o ddata staff yn cael ei ddal amdanynt, i mewn i'r Adolygiadau Cyflog Cyfartal;
- gweithredu i gynyddu data gweithwyr sydd â nodweddion gwarchoddedig pan na chaiff ei adrodd;
- cyfranogi'n llawn yng Nghynlluniau Gweithredu Cyflog Cyfartal y Grŵp, sy'n cynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael ag achosion unrhyw wahaniaethau cyflog yn ymwneud â nodweddion gwarchoddedig;
- cydymffurfio â phob agwedd ar y ddyletswydd statudol ar wahaniaethau cyflog yn y Ddeddf Cydraddoldeb.

8 | CASGLU DATA A MONITRO | Gwellu'r gwaith o gasglu, dadansoddi a monitro data cydraddoldeb a gwybodaeth cydraddoldeb berthnasol.

Drwy nodi targedau penodol yn flynyddol yn ein Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol, byddwn yn:

- hyrwyddo diwylliant lle mae ein rhanddeiliaid yn hyderus i ddatgelu gwybodaeth am gydraddoldeb;
- sicrhau ein bod yn cynyddu cyfraddau datgelu gwybodaeth cydraddoldeb gan weithwyr er mwyn datblygu dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o'n gweithlu a'i anghenion;
- cynhyrchu a chyhoeddi adroddiadau monitro cydraddoldeb blynyddol ar gyfer staff a myfyrwyr;

- gwella'r gwaith dadansoddi a'r defnydd o ddata cydraddoldeb myfyrwyr;
- buddsoddi yn ein gallu i gasglu ac adrodd yn gywir ar ddata a gyda chanlyniadau diriaethol;
- sicrhau ein bod yn defnyddio sail dystiolaeth gadarn i ddatblygu a monitro ein strategaethau a'n mentrau cydraddoldeb.

## MANYLION CYSWLLT

I gael rhagor o wybodaeth neu i roi adborth am Gynllun Cydraddoldeb Strategol Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, cysylltwch â:

Enw	Brian Weir
Teitl Swydd	Cyfarwyddwr Gweinyddu Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr
Cyfeiriad	Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru Maes y Castell Parc Cathays Caerdydd CF10 3ER
Ffôn	029 2034 2854
E-bost	<a href="mailto:studentservices@rwcmd.ac.uk">studentservices@rwcmd.ac.uk</a>